# Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion Cyfarfod Tachwedd Cyngor Cymuned Bodedern,

Dydd Llun, 25 Tachwedd 2024 am 18.30 yn y Canolfan Bro'r Ysgol

1. **Croeso a unrhyw ymddiheuriadau.**

   Presennol: JA Roberts (JAR, Cadeirydd), D Hughes (DH Clerc), L Jones (LJ), A Postle (AP), O Jones (OJ), B Hughes (BH), G Jones (GJ), M Trowell (MT) E Jones (EJ), V Owen (VO),

   Ymddiheuriadau - J Ferry (JF), R Jones (RJ), K Taylor (KT)

2. **Datgan diddordeb**

   Dim

3. **Derbyn cofnodion**

   Derbyn cofnodion Tachwedd. LJ yn cynnig AP yn eilio.

4. **Materion o'r cofnodion**

   - Ymunodd disgyblion o Ysgol Gynradd Bodedern i rhoi cyflwyniad ar eu gwaith yn edrych ar hanes y pentref. Maent yn gobeithio creu tagiau QR ar leoliadau penodol (tua 12) a chysylltu â'r wefan. Cynghorir i anfon llythyr at y cyngor i ofyn am gyfraniad i ariannu'r prosiect.
   - DH i gadarnhau manylion am ganiatâd i rhoi postiau ar ochr y briffordd er mwyn rhoi panel a tag QR arnynt.
   - DH i gael lleoliadau PROW a gyrru ymlaen at Mr Michael.
   - Dilyn i fyny efo'r ymgymerwr Melvin Rowlands i fwrw ymlaen efo atgyweirio cerrig yn y fynwent.

5. **Materion Ariannol**

   HSBC - £44,043.36 yn cyfrif ar y funud.

   - Bancio ar-lein yn gweithio

6. **Taliadau**

   - Humphreys waste £43.20
   - Leigh Thomas £700
   - Trefor Jones (Waliwr) £450
   - Clerk £290.58
   - RPG £816
   - Notice board company £351.57

7. **Ceisiadau Cynllunio**

   49 Bron y Graig – Dim gwrthwynebiad

   Bodowyr – Dim gwrthwynebiad

8. **Sedd Wag**

   - Rhybudd y sedd wag yn gorffen ar 29ain o Dachwedd.

**9. Elusenau**

- Cyhoeddodd JAR y wybodaeth diweddaraf am Gomisiwn Elusennau.
- Bwriedir codi £600 o Gronfa Elusennau Bodedern a £380 i'w dalu'n ôl i'r Cyngor Cymuned (Cyfanswm o £980).
- DH a JAR i gwrdd @HSBC i ddatrys pob mater ariannol yn ymwneud a Chronfa Elusennau Bodedern
- Rhoddion Nadolig (£10 bob person) i'w dosbarthu ar 11/12/24 @ 1pm – 3pm ym Mro'r Ysgol. JAR a LJ yn gyfrifol.

**10. Archwiliad allanol**

Disgwyl ffeiliau yn ôl o Gaerdydd.

**11. Cyrsiau**

Dim

**12. Lwfansau cynghorwyr**

Dim

**13. Maes Chwarae**

DH i drio trafod ffordd ymlaen gyda Macventure. Hefyd, cysylltu â GL Jones i gael pris i wneud atgyweiriadau a llyfryn gyda prisiau eu hoffer.

**14. Mynwent**

- Amcan bris ar gyfer gosod mainc. DH i gael pris, lleoliad a lluniau.
- DH i drefnu cyfarfod efo Melvin Rowlands pan fydd ganddo amser.
- JAR yn cynnig ffioedd newydd ar gyfer claddedigaeth, cynigiwyd gan AP a LJ yn eilio.
- Cyflwynwyd templed taflen rhybydd claddedigaeth, ac roedd yr holl aelodau'n hapus â'i chynnwys
- Mae angen cyfieithu rheolau'r fynwent. Judith Thomas yn fodlon gwneud y gwaith am £65.
- Cynigiodd JAR y posibilrwydd o gael plac ar wal y fynwent gan y Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad
- Cyflwynwyd rheolau newydd y fynwent gan JAR, BH yn cynnig, a'u heilio gan MT.
- JAR i gael pris gan Trefor Jones i drwsio ac atgyweirio gweddill y waliau
- DH i hysbysu RPG i gwblhau gwaith sidio

Adroddodd JAR am ei thrafodaeth gyda'r Bwrdd Claddu yn Llundain a Saif.

**15. Gohebiaeth**

- Ambiwlans Awyr Cymru ac Eisteddfod Môn '25 wedi gofyn am gyllid. DH i ofyn am fantolenni oddiwrth y ddau.

**16. Materion aelodau**

- A yw'n bosibl gwahodd swyddog cymuned yr heddlu i gyfarfod Ionawr neu Chwefror?
- Cynnig cysylltu â'r Parch. Ddr Dafydd Wyn William i ofyn a fyddai'n bosibl cael ail gyhoeddi tua 14 llyfr mae wedi ysgrifennu ynglŷn â hanesion gwahanol lefydd ym Modedern. DH i gysylltu â DWW i ofyn am gael caniatâd i ail argraffu.
- Rhan o dir y tu ôl i Bro'r Ysgol, pwy sy'n berchen arno?
- Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026, targed o £7,000 i'r pentref ei godi.
- Darganfu Pwyllgor Tyn Trewan lawer o hen ddogfennau mewn cabinet.
- Mewn cyfarfod agored rhwng Medrwn Môn a Chynghrair Bro'r Llynnoedd cyfarfu JAR â'r Comisiynydd. Roedd yn gyfle i weld beth sydd ar gael gyda'r Gynghrair. Mae Clwb Pêl-droed Bodedern a'r Eglwys wedi derbyn rhoddion yn ogystal â'r Ysgol Gynradd.

**Cyfarfod Nesaf – 27 Ionawr 2025**

Cadeirydd: ____________________________ Dyddiad: _______________________